ARDDANGOSFA AGORED

Yng Nghaerdydd lleolir Y Lle Celf yn Y Senedd lle'r cynhelir arddangosfa aml-gyfrwng fawr. Croesewir ceisiadau ym mhob disgyblaeth, boed celfyddyd gain neu gelfyddyd gymhwysol (gan gynnwys y ddelwedd symudol neu gelfyddyd berfformans).

Gofynnir i ymgeiswyr gyflwyno gwaith ar ffurf delweddau Jpeg ynghyd â datganiad clir ynglŷn â'r gwaith. Oherwydd y nifer fawr o geisiadau a gyflwynir, caiff y mwyafrif o'r gweithiau eu dewis o'r delweddau hyn, felly mae'n bwysig i chi gyflwyno delweddau clir o'ch gwaith ac i ddangos eitemau sydd ar gael ar gyfer yr arddangosfa. Gwahoddir ymgeiswyr sy'n gweithio drwy gyfrwng y ddelwedd symudol neu berfformans i gyflwyno eu gwaith ar ffurf DVD. Ar ôl edrych ar y ceisiadau, efallai bydd y detholwyr yn gofyn am weld rhagor o ddeunydd, neu'n ymweld â nifer fechan o'r rhai hynny ar y rhestr fer. Bydd y gwaith a ddewisir yn cael ei arddangos yn Y Lle Celf dros gyfnod yr Eisteddfod. Ble mae gofynion y gwaith yn mynnu, gall ddigwydd y tu hwnt i'r adeilad ei hun.

Cysylltwch â'r Swyddog Celfyddydau Gweledol os nad ydi gofynion y ffurflen hon yn ymddangos yn berthnasol i'ch gweithgaredd celfyddydol chi.

Parheir y traddodiad Eisteddfodol o anrhydeddu rhagoriaeth yn yr adrannau canlynol:

CELFYDDYD GAIN
Y FEDAL AUR AM GELFYDDYD GAIN

Gwobr: Medal Aur am Gelfyddyd Gain (replica) a £5,000 i'w rannu yn ôl doethineb y detholwyr.

CREFFT A DYLUNIO
Y FEDAL AUR AM GREFFT A DYLUNIO

Gwobr: Medal Aur am Grefft a Dylunio (replica) a £5,000 i'w rannu yn ôl doethineb y detholwyr.

YSGOLORIAETH ARTIST IFANC

Ysgoloriaeth: £1,500

Dyfernir yr ysgoloriaeth i'r ymgeisydd mwyaf addawol er mwyn ei alluogi i ddilyn cwrs mewn ysgol neu goleg celf cydnabyddedig neu fynychu dosbarthiadau meistr. Bydd yr ysgoloriaeth yn agored i'r sawl sydd dan 25 oed ar 31 Awst 2018. Disgwylir i'r ymgeiswyr sy'n cyrraedd y rhestr fer baratoi portffolio a chyflwyno cais yn esbonio sut y bwriedir defnyddio'r ysgoloriaeth. Ystyrir dangos y gwaith a gyflwynwyd yn Y Lle Celf. Yn ogystal, ystyrir cynnig gofod i enillydd yr ysgoloriaeth yn Y Lle Celf yn yr Eisteddfod ganlynol.

DETHOLWYR:

Marc Rees *(Curadur a Chyfarwyddwr Artistig Annibynnol)*
Karen MacKinnon *(Cyfarwyddwr a Churadur Artes Mundi)*
Ingrid Murphy *(Ysgol Celf a Dylunio Caerdydd)*

GWOBR IFOR DAVIES

Gwobr: £600. Dyfernir am y gwaith yn yr Arddangosfa Agored sy'n cyfleu ysbryd y frwydr dros iaith, diwylliant a gwleidyddiaeth Cymru.

GWOBR TONY GOBLE

Gwobr: £500 (er cof am Tony Goble). Rhoddir am waith gan artist sy'n cyfleu ysbryd barddonol y genedl Geltaidd hon, sy'n arddangos yn yr Arddangosfa Agored am y tro cyntaf.

GWOBR JOSEF HERMAN - DEWIS Y BOBL

Gwobr: £500 (Sefydliad Celf Josef Herman) i'r darn mwyaf poblogaidd o waith, neu gasgliad o waith, yn yr Arddangosfa Agored - cyfle i'r cyhoedd bleidleisio.

PENSAERNÏAETH

Am fanylion pellach cysyllter â Swyddfa'r Eisteddfod.

Y FEDAL AUR AM BENSAERNÏAETH

(Cefnogir gan Gomisiwn Dylunio Cymru)
Gwobr: Medal Goffa Alwyn Lloyd (replica), ar y cyd â Chymdeithas Frenhinol Penseiri yng Nghymru.

PLAC TEILYNGDOD

Ar gyfer prosiectau llai ond o safon ac ansawdd dylunio uchel yng Nghymru.

YSGOLORIAETH BENSAERNÏAETH

(Cefnogir gan Gomisiwn Dylunio Cymru)
Agored i unigolion dan 25 oed.
Gwobr: £1,500

Y Lle Celf yn Y Senedd

Eisteddfod Genedlaethol Cymru
mewn partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Cymru

Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED

YN Y SENEDD

Y Lle Celf

****

ARDDANGOSFA AGORED 2018

****

Medal Aur am Gelfyddyd Gain **£5000**
Medal Aur am Grefft a Dylunio **£5000**
Ysgoloriaeth Artist Ifanc **£1500**

E

Eisteddfod Genedlaethol Cymru
Caerdydd
3 – 11 Awst 2018

www.eisteddfod.cymru

AMODAU ARBENNIG

1. Pwy sy'n cael cystadlu?
Mae'r arddangosfa yn agored i'r rhai a aned yng Nghymru neu y ganwyd un o'i rieni yng Nghymru neu unrhyw berson a fu'n byw neu'n gweithio yng Nghymru am y tair blynedd cyn 31 Awst 2018 neu unrhyw berson sy'n siarad neu ysgrifennu Cymraeg.

2. Ffurflenni cais a thâl
£20.00 yw'r tâl cystadlu (£10.00 Ysgoloriaeth Artist Ifanc). Gwahoddir ymgeiswyr i anfon chwe delwedd Jpeg 300 dpi, maint A5, ar ddisg neu USB (ar gyfer PC), sy'n dangos un gwaith neu drawsdoriad o weithiau. Cyfyngir pob cais i uchafswm o chwe delwedd. Gwahoddir ymgeiswyr sy'n gweithio drwy gyfrwng y ddelwedd symudol neu berfformans i gyflwyno hyd at chwe gwaith ar DVD. Derbynnir dolenni i safweoedd fideo yn ogystal. Er mwyn cystadlu, rhaid i bob cais gynnwys peth gwaith a gwblhawyd ers Awst 2015. Ar ôl edrych ar y ceisiadau, efallai bydd y detholwyr yn gofyn am gael gweld rhagor o ddeunydd.

3. Datganiad
Rhaid cynnwys datganiad llawn ynglŷn â'r gwaith a gyflwynir yn ogystal – ni ystyrir unrhyw gais heb ddatganiad.

4. Sut i gystadlu
Anfonwch £20.00 (£10.00 Ysgoloriaeth Artist Ifanc), ffurflen gais wedi ei chwblhau, delweddau Jpeg neu waith DVD, ynghyd â datganiad clir ynglŷn â'r gwaith at y Swyddog Celfyddydau Gweledol yn: **Swyddfa'r Eisteddfod, 40 Parc Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd, CF14 5DU (0845 4090 300)**. Sieciau wedi'u croesi'n daladwy i: **Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2018.**

5. Nifer y ceisiadau
Gellir cyflwyno unrhyw nifer o geisiadau ar gyfer yr Arddangosfa Agored.

6. Yswiriant
Cynghorir ymgeiswyr i yswirio unrhyw ddelweddau Jpeg neu waith DVD a anfonir i Swyddfa'r Eisteddfod. Cymerir pob gofal o unrhyw waith y rhoddir derbynneb amdano ac fe fydd yr Eisteddfod yn yswirio'r gweithiau o'r adeg y'u cesglir nes iddynt gael eu dychwelyd at eu perchenogion.

7. Gwybodaeth gyffredinol
a) Mae pob cystadleuaeth ac arddangosfa yn yr adran hon yn ddarostyngedig i'r Rheolau ac Amodau Cyffredinol ac i'r Amodau Arbennig hyn. Rhestrir y Rheolau Cyffredinol yn y Rhestr Testunau, sydd ar gael o Swyddfa'r Eisteddfod.

b) Rhaid i'r gwaith fod yn waith dilys yr ymgeisydd, ac ni ddylai fod wedi ei arddangos mewn unrhyw Eisteddfod Genedlaethol flaenorol.

8. Gwerthiant
Os yw gwaith ar werth, dylid nodi ei bris ar y ffurflen gais. Codir comisiwn o 40% (yn cynnwys T.A.W.) am unrhyw waith a werthir.

9. Hawlfraint
Bydd hawlfraint pob gwaith yn eiddo i'r ymgeisydd ond ceidw'r Trefnyddion yr hawl i atgynhyrchu unrhyw waith mewn unrhyw lawlyfr neu wefan perthynol i'r Eisteddfod ac i ganiatáu cyhoeddi lluniau o'r arddangosfa. Gall unrhyw waith gael ei ddefnyddio at bwrpas cyhoeddusrwydd yr Eisteddfod.

10. Derbynneb
Rhoddir derbynneb swyddogol am bob cais a dderbynnir. Dylid cadw'r dderbynneb hyd nes y dychwelir y gwaith.

11. Dychwelyd y delweddau Jpeg neu waith DVD
Dychwelir y rhain erbyn diwedd Mai 2018. Os gwelwch yn dda, a wnewch chi gynnwys amlen bwrpasol gyda chyfeiriad a stamp arni ar gyfer dychwelyd y gwaith.

12. Dyfarniad y detholwyr
Bydd dyfarniad y detholwyr yn derfynol.

13. Ysgoloriaeth Artist Ifanc
Mae'r arian a gynigir fel Ysgoloriaeth Artist Ifanc i'w ddefnyddio i hyrwyddo gyrfa. Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus brofi i'r Eisteddfod y gwerir yr arian yn unol â'r amod hon.

14. Dyddiad cau
Ar gyfer derbyn y delweddau Jpeg neu waith DVD, ffurflenni cais a thâl cystadlu:
14 Chwefror 2018.

DERBYNNEB

SWYDDFA YN UNIG

Derbyniwyd eich cais i'w gyflwyno at sylw'r detholwyr yn yr adran Celfyddydau Gweledol. Derbyniwyd £20.00 / £10.00 fel tâl cystadlu.

Arwyddwyd: .....

Dyddiad: .....

Rhif cais: .....

ARDDANGOSFA AGORED
FFURFLEN GAIS

Enw: .....

Cyfeiriad: .....

.....

.....

Ffôn: .....

E-bost: .....

SUT I YMGEISIO

Anfoner at sylw'r Swyddog Celfyddydau Gweledol

- Ffi o £20.00 (£10.00 Ysgoloriaeth Artist Ifanc)
  Taliad drwy gerdyn VISA / MASTERCARD

  £ ☐

  Rhif y cerdyn: ☐☐☐☐ ☐☐☐☐ ☐☐☐☐ ☐☐☐☐

  Dyddiad dod i ben: ☐☐ / ☐☐

  Côd CVV: ☐☐☐ *(y 3 digid olaf ar gefn eich cerdyn)*

- Ffurflen gais wedi ei chwblhau
- Delweddau Jpeg 300 dpi, maint A5 (dim mwy na 6) ar ddisg neu USB ar gyfer PC neu hyd at 6 gwaith ar DVD neu ddolen i safwe fideo
- Datganiad llawn a chlir ynglŷn â'r gwaith
- Amlen gyda chyfeiriad a stamp arni ar gyfer dychwelyd y ddisg neu USB

Swyddfa'r Eisteddfod, 40 Parc Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd, CF14 5DU

Mae modd ymgeisio ar-lein hefyd ar www.eisteddfod.cymru

NI DDERBYNNIR CEISIADAU E-BOST

Dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais:
14 Chwefror 2018

CYMHWYSTER

(Rhoddwch X wrth y brawddegau perthnasol)

1. Fe'm ganed yng Nghymru ☐
2. Yr wyf o dras Gymreig ☐
3. Yr wyf wedi byw / gweithio yng Nghymru am y tair blynedd cyn 31 Awst 2018 ☐
4. Yr wyf yn siarad / ysgrifennu Cymraeg ☐
5. Dyddiad geni (Ysgoloriaeth Artist Ifanc yn unig) .....

Teitl Title	**Cyfrwng** Medium	**Maint** (yn cynnwys ffrâm) Size (including frame)	**Lleoliad presennol** Present location	**Dyddiad y gwaith** Date of work	**Pris os ar werth** (yn cynnwys comisiwn o 40%) Price if for sale (including 40% commission)
1.					
2.					
3.					
4.					
5.					
6.					

☐

Nodwch yma os ydych yn gwneud cais am Ysgoloriaeth Artist Ifanc

Note here if you are applying for the Young Artist Scholarship

Tynnir sylw ymgeiswyr at y rheol iaith yn y Rheolau Cyffredinol. Golyga hynny fod yn rhaid i unrhyw eiriau gwreiddiol a gynhwysir yn y gwaith celf (gan gynnwys sain a fideo) fod yn Gymraeg. Ond gellir cynnwys geiriau mewn ieithoedd eraill os ydynt yn rhan o wrthrych a ddarlunnir neu a ymgorfforir, neu yn ddyfyniadau, cyn belled nad ydynt yn rhan sylweddol o'r cyfanwaith.

Entrants' attention is drawn to the language rule in the General Rules. This means that any original words incorporated in the artwork (including sound and video) must be in Welsh. However, words in other languages may be included if they form part of an object depicted or incorporated, or if they are quotations, provided they do not form a substantial part of the whole composition.